Children's Participation in Schools

ESRC Education Research Programme
Empowering educators

# Addysg Gychwynnol i Athrawon a Chyfranogiad Plant: Colli cyfleoedd, yr hyn yr ydym [nad ydym] yn ei ddweud wrth ein hathrawon dan hyfforddiant

***Mae'r ymchwil hwn yn archwilio i ba raddau y mae Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) yn paratoi athrawon newydd i gefnogi hawliau cyfranogol plant mewn ysgolion.*** Mae cymorth o'r fath yn cael ei nodi yn fframwaith deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac mae ganddo le amlwg yn y Cwricwlwm i Gymru (CfW).

***Diffiniad o 'hawliau cyfranogol':*** *hawl plentyn i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau yn ei addysg ac am ei addysg. Mae hyn yn seiliedig ar Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ymysg pethau eraill.*

*Mae'r hawliau hyn wedi'u hymgorffori yn* ***themâu trawsgwricwlaidd y Cwricwlwm i Gymru****: rhaid i blant ddysgu* ***am***, ***drwy*** *ac* ***ar gyfer*** *hawliau dynol.*

Dros gyfnod o 12 mis, buom yn gweithio gyda myfyrwyr AGA ac addysgwyr athrawon i edrych ar yr arferion addysgeg sy'n ymgorffori hawliau cyfranogol plant ifanc. Fe wnaethom nodi ysgogiadau a galluogwyr, tensiynau a heriau i arferion addysgeg cyfranogol, ac rydym wedi cyd-greu gwybodaeth ar gyfer gweithredu.

Gwnaethom fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ymholi gan ddod â gwahanol brofiadau a gwybodaeth addysgol ein cyfranogwyr at ei gilydd. Gwnaethom ddefnyddio ysgogiadau ar ffurf data o gam cynharach o'r prosiect i ddadansoddi a meddwl am sut y gellid cefnogi plant i gymryd rhan, mewn ffordd ddilys, yn y broses o wneud penderfyniadau ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd ac wrth lunio cwricwlwm.

### Canfyddiadau

- Mae addysgwyr athrawon yn cydnabod bod y Cwricwlwm i Gymru, fel cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar brosesau, yn cyd-fynd yn agos â dull addysgeg cyfranogol. Hoffai addysgwyr athrawon ragor o gyfleoedd i ymgysylltu â dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â'r mater hwn.

UWE Bristol University of the West of England · Swansea University Prifysgol Abertawe · Cardiff Metropolitan University Prifysgol Metropolitan Caerdydd · Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

- Collir cyfleoedd i fyfyrwyr AGA ddatblygu addysgeg gyfranogol ac i ddysgwyr mewn ysgolion gymryd rhan mewn penderfyniadau a llunio cwricwlwm yn yr ystafell ddosbarth.
- Er bod y Cwricwlwm i Gymru yn mynnu'n benodol bod plant yn dysgu 'am, 'drwy' ac 'ar gyfer' hawliau dynol, pan mae myfyrwyr AGA mewn ysgolion, maent yn cael profiad yn bennaf o blant yn dysgu 'am' hawliau dynol. Yn yr un modd, mae darparwyr AGA ar hyn o bryd yn cefnogi myfyrwyr i wybod am Addysg Hawliau Dynol, ond nid ydynt yn cael eu cefnogi fel mater o drefn i ddatblygu addysgeg gyfranogol.
- Mae addysgwyr athrawon a myfyrwyr AGA yn dibynnu ar brosesau ffurfiol cynrychiolaeth ddemocrataidd fel cyngor yr ysgol, yr eco-bwyllgor, i gyflawni gofynion y cwricwlwm o ran Addysg Hawliau Dynol.

## Argymhellion

Er mwyn cefnogi myfyrwyr AGA i ddatblygu amrywiaeth o strategaethau addysgeg sy'n ymgorffori cyfranogiad plant mewn penderfyniadau ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd a chreu cwricwlwm, rydym yn awgrymu'r canlynol:

- Dylai **prosesau achredu AGA** sicrhau bod darparwyr AGA yn rhoi sylw i ddatblygiad addysgeg ymhlith myfyrwyr AGA fel eu bod yn gallu cefnogi pob plentyn i roi ei hawliau cyfranogol ar waith.
- Dylai **darparwyr AGA** sicrhau bod myfyrwyr AGA yn cael (a) gwybodaeth addysgegol a chynnwys briodol ac enghreifftiau o addysgeg gyfranogol, a (b) cyfleoedd yn yr ysgol i weithredu addysgeg gyfranogol, o fewn eu rhaglen AGA.
- Dylai **Llywodraeth Cymru** sicrhau bod dysgu proffesiynol a chanllawiau ar gael i ddarparwyr AGA ategu a/neu ail-lunio cwricwla rhaglenni AGA er mwyn sicrhau bod plant yn cymryd cymaint o ran â phosibl yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r partneriaethau AGA yn cynnig model cyfoethog ar gyfer sefydlu dull sy'n seiliedig ar ymholi drwy gwestiynau addysgeg o'r fath, a hynny yng ngoleuni'r Cwricwlwm i Gymru.
- Dylai **addysgwyr athrawon** sicrhau eu bod yn wybodus ac yn hyderus wrth gefnogi myfyrwyr AGA i ddatblygu addysgeg gyfranogol, sy'n ymateb i ddysgwyr yn yr ysgol, sydd yn ei dro yn cefnogi'r broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.